# PWYLLGOR ARCHWILIO
# 19 GORFFENNAF 2017

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Archwilio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Clwyd, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, ddydd Mercher 19 Gorffennaf 2017.

**YN BRESENNOL: Sally Ellis (Is-gadeirydd yn y Gadair)**
Y Cynghorwyr: Glyn Banks, Jean Davies, Chris Dolphin, Andy Dunbobbin a Paul Johnson

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Helen Brown ac Arnold Woolley

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Patrick Heesom

**ARSYLWYR:**
Y Prif Weithredwr; Rheolwr Archwilio Mewnol Dros Dro; Rheolwr Cyllid Corfforaethol; Rheolwr Cyllid - Cyfrifeg Dechnegol; a Swyddog Pwyllgorau

John Herniman a Matthew Edwards o Swyddfa Archwilio Cymru

## 16. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol ag eitem 4 ar y rhaglen: 'Datganiad Cyfrifon Drafft 2016/17':

Sally Ellis – aelod a rhai o'i theulu'n aelodau o'r Gronfa Bensiynau; a'r Cynghorydd Glyn Banks – aelod o Fwrdd NEW Homes.

## 17. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2017.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 18. DATGANIAD CYFRIFON DRAFFT 2016/17

Cyflwynodd Rheolwr Cyllid Corfforaethol a Rheolwr Cyllid - Cyfrifeg Dechnegol Ddatganiad Cyfrifon drafft 2016/17 (testun archwilio) er gwybodaeth. Roedd y rhain yn cynnwys y cyfrifon Grŵp - gan gynnwys yr is-gwmni sy'n eiddo iddo'n llawn, North East Wales (NEW) Homes - a Chronfa Bensiynau Clwyd. Byddai'r cyfrifon terfynol wedi'u harchwilio'n cael eu derbyn ar 27 Medi i'w cymeradwyo a'u hargymell i'r Cyngor Sir ar yr un diwrnod, cyn y dyddiad cau statudol ar gyfer cyhoeddi, sef 30 Medi. Roedd hon yn ddogfen gorfforaethol a luniwyd drwy waith sylweddol ar draws yr Awdurdod, yn enwedig gan y tîm Cyfrifeg Dechnegol yn Adran Cyllid Corfforaethol.

Rhoddwyd cyflwyniad yn trafod y meysydd canlynol:

- Pwrpas a chefndir
- Cynnwys a throsolwg
- Cyfrifoldeb
- Cysylltiadau â monitro’r gyllideb
- Penawdau – Cronfa'r Cyngor, Cronfeydd Wrth Gefn ar Ddiwedd y Flwyddyn, Cyfrif Refeniw Tai a Chyfalaf
- Newidiadau i Ddatganiad Cyfrifon 2016/17
- Prif Ddatganiadau
- Grŵp Llywodraethu Cyfrifon
- Cynnydd wrth fynd i’r afael â materion y llynedd
- Amserlen a chamau nesaf
- Effaith dyddiadau cau cynt ar fateroliaeth

Eglurodd Mr John Herniman o Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) y dull cyffredinol o ran yr archwiliad wrth gymryd golwg gyffredinol ar fateroliaeth i ddarparu gwybodaeth er mwyn barnu cywirdeb y cyfrifon ac nad yw’r adrodd anochel am gamfynegiannau, o reidrwydd, yn golygu bod angen diwygio. Croesawodd y trefniadau i’r Grŵp Llywodraethu Cyfrifon fod yn goruchwylio’r broses. Nododd fod cyflwyno terfynau cyhoeddi statudol cynharach ar gyfer cyfrifon y dyfodol yn her sylweddol i bawb ac fe awgrymodd efallai y byddai’r Cyngor yn dymuno ystyried treialu hyn yn gynharach. Byddai effaith dyddiad cau buan yn golygu bod mwy o bwyslais ar ddata amcangyfrifedig ac, o bosib’, fwy o fân wallau yn y cyfrifon, ond roedd y ffocws ar eu cywirdeb yn eu hanfod ac felly efallai na fyddai'r Cyngor am ddiwygio mân wallau.

Cadarnhaodd Mr Matthew Edwards o SAC eu bod wedi derbyn y cyfrifon drafft cyn y dyddiad cau a diolchodd i'r swyddogion Cyllid am ddarparu gwybodaeth i ategu'r cyfrifon a oedd yn cyfrannu tuag at effeithlonrwydd yr archwiliad. Byddai unrhyw faterion allweddol a godai o'r archwiliad yn cael eu crynhoi yn yr adroddiad a fyddai yn y cyfarfod nesaf.

Soniodd y Prif Weithredwr am rôl effeithiol y Grŵp Llywodraethu Cyfrifon o ran y gwaith cyfrifon. Wrth groesawu’r cyngor gan gydweithwyr o SAC ar her y dyddiadau cau cynharach, rhoddodd sicrwydd y byddai adnoddau o fewn y tîm Cyllid yn cael eu monitro i sicrhau eu bod yn ddigonol i gyflawni dyletswyddau statudol.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorwyr Chris Dolphin a Glyn Banks, eglurodd Mr Herniman fod y newid arfaethedig i ddyddiadau cyhoeddi cyfrifon awdurdodau lleol Cymru’n benderfyniad gan Lywodraeth Cymru a oedd yn dilyn newidiadau a wnaed yn Lloegr, wedi’u cymell gan Drysorlys y DU i lunio Cyfrifon Llywodraeth Gyfan y DU yn gynt. Er cydnabod yr heriau, roedd mantais o fod â dealltwriaeth gynt o’r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Mewn perthynas â’i sylwadau cynharach, eglurodd ei bod yn anochel bod cyfrifon yn cynnwys rhywfaint o ddata wedi’i amcangyfrif ac nad oedd mân bethau, ar y cyfan, yn effeithio ar y farn ynglŷn â’i gywirdeb yn ei hanfod, sef y brif ystyriaeth. Pan ofynnwyd iddo ynglŷn â’r posibilrwydd o weld y setliad dros dro ynghynt, dywedodd y Prif Weithredwr na fyddai hyn yn cael unrhyw effaith ar y cyfrifon.

Cododd y Cynghorydd Paul Jones bryderon nad oedd yr amserlen ar gyfer cyfrifon drafft 2020/21 yn caniatáu digon o amser i'r Aelodau oruchwylio'n ddemocrataidd, yn enwedig o ystyried y cyfnod cyn yr etholiad. Cyfeiriodd Mr Herniman at y drefn etholiadol a dywedodd y dylai'r Cyngor newydd ddal gael cyfle i ystyried y cyfrifon o fewn yr amserlen fyrrach. Dywedodd y Prif Weithredwr na fyddai'r cyfnod etholiadol yn effeithio ar lunio'r cyfrifon erbyn y dyddiad cau.

Gofynnodd y Cadeirydd ynglŷn ag effaith ymrwymiadau pensiynau ar werth net yr awdurdod ac fe ddywedwyd wrthi fod yr ymrwymiad uwch o ganlyniad i newidiadau angenrheidiol a wnaed i ragdybiaethau cyfrifeg ariannol gan yr actiwari wrth gyfrifo'r ymrwymiad. Sicrhawyd yr aelodau bod trafodion cyfrifeg pensiynau'n angenrheidiol i gydymffurfio ag arferion cyfrifeg a dderbynnir yn gyffredinol, ond na chafwyd unrhyw effaith ar linell sylfaen y Cyngor o ran trafodion yn y Datganiad Incwm a Gwariant a'u bod wedi'u tynnu yn ôl o'r Datganiad ar Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Mewn perthynas â phrisio anheddau'r Cyngor, eglurodd Rheolwr Cyllid nad oedd unrhyw effaith weithredol ac eglurodd gefndir y dull o gyfrifo'r gwerth a oedd wedi'i fabwysiadu i'w ddefnyddio yn y cyfrifon.

Wrth dderbyn cwestiynau pellach gan y Cadeirydd, soniodd Rheolwr Cyllid Corfforaethol am y gwahaniaeth rhwng cronfeydd wrth gefn wedi'u neilltuo a rhai heb eu neilltuo ac am y defnydd parhaus o gronfeydd Statws Sengl. Nododd y Prif Weithredwr fod lefel cronfeydd wrth gefn yn risg wrth iddynt barhau i ostwng ac na ellir dibynnu arnynt i'w defnyddio i wrthbwyso cyllideb y Cyngor yn ystod y cyfnod parhaus hwn o doriadau.

Pan ofynnodd y Cynghorydd Banks i Reolwr Cyllid Corfforaethol am lefelau cronfeydd wrth gefn at raid, dywedodd Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod gan y Cyngor bolisi o gynnal lefel sylfaen o arian wrth gefn o tua 2% o drosiant, a ystyrid yn ddigon, a dywedodd fod cronfeydd wrth gefn yn cael eu hadolygu'n barhaus a datganiad blynyddol wedi'i gynnwys yn yr adroddiad blynyddol i'r Cyngor ar y gyllideb.

Ar y fantolen, holodd y Cadeirydd ynglŷn â'r cynnydd sylweddol o ran dyledwyr tymor byr ac fe gafodd wybod bod disgwyl symudiadau eithaf mawr mewn perthynas â dyledwyr a chredydwyr ac y gallai gael ei effeithio gan yr adeg y gwnaed taliadau cyllid grantiau. Roedd y symudiad penodol hwn yn bennaf o ganlyniad i'r benthyciad a roddwyd i NEW Homes, a oedd yn cael ei ystyried yn un 'tymor byr' gan ei fod ar y cam datblygu o adeiladu cartrefi fforddiadwy yn y Fflint. Rhoddwyd eglurhad hefyd ar yr addasiad cyfrifo ar gyfer 'absenoldebau wedi'u casglu' a oedd yn adlewyrchu'r gwyliau a oedd yn ddyledus i weithwyr heb unrhyw effaith weithredol.

Croesawyd graddau'r gwaith dadansoddi a wnaed gan y Pwyllgor gan Mr Herniman, a oedd yn cydnabod natur gymhleth cyfrifon llywodraeth leol.

Fel ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd ar ddyfarniadau a rhagdybiaethau beirniadol, rhoddwyd eglurhad o'r modd yr ymdrinnir â Throsglwyddiadau Asedau Cymunedol a lesoedd corfforedig o fewn y contract gwasanaethau fflyd yn y cyfrifon.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Andy Dunbobbin at y derminoleg a ddefnyddiwyd i egluro'r fethodoleg i brisio asedau gan bwysleisio mor bwysig oedd llunio dogfen gyhoeddus ddarllenadwy a dealladwy. Dywedodd Rheolwr Cyllid fod diffyg canllawiau cenedlaethol ar y fethodoleg brisio wedi'i nodi ac y gellid cyflwyno mwy o sylwadau. Wrth gydnabod y pwynt ynglŷn â therminoleg, cyfeiriodd at yr heriau wrth geisio bodloni gofynion cyfrifo a defnyddio iaith eglur yn y ddogfen.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gymariaethau â chyfrifon awdurdodau lleol eraill ac roedd yn canmol Sir y Fflint am gynnwys nodiadau eglurhaol. Dywedodd fod y cyflwyniad wedi helpu i roi trosolwg o'r pwyntiau allweddol.

Mewn perthynas â Throsglwyddiadau Asedau Cymunedol, cyfeiriodd y Cynghorydd Dolphin at y risg a oedd yn parhau â'r Cyngor a dywedodd fod y risg hon yn cael ei rhannu gan grwpiau cymunedol a oedd yn derbyn yr asedau. Aeth yn ei flaen i ddweud y dylid cael mwy o aelodau i fod ar y Pwyllgor.

Mewn perthynas â dyledion digwyddiadol, holodd y Cynghorydd Johnson ynglŷn â'r achos cyfreithiol cenedlaethol ar ariannu gofal cymdeithasol ac fe ddywedwyd wrtho y byddai'r dyfarniad y disgwylid amdano'n sylweddol i gynghorau yng Nghymru a'r Byrddau Iechyd a bod mesur costau posib' yn anodd. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y risgiau a oedd yn gysylltiedig â rhai dyledion digwyddiadol eraill a oedd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Dunbobbin ar fenthyca gan Fwrdd Benthyca Gwaith Cyhoeddus, dywedodd Mr Edwards o SAC bod hyn yn rhan o'r dull ar sail risgiau o archwilio ac y byddai'r canlyniad yn cael ei adrodd ym mis Medi.

Eglurodd Mr Herniman na nodwyd unrhyw faterion o bryder yn y cyfrifon ar hyn o bryd.

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau o'r cyfleoedd a oedd ar gael i gael eglurhad ynglŷn â materion yn y cyfrifon drafft, fel y maent wedi'u nodi yn yr adroddiad. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai ymatebion i ymholiadau a wnaed ynglŷn â'r cyfrifon drafft yn cael eu rhannu gyda'r holl aelodau cyn y camau terfynol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi Datganiad Cyfrifon drafft 2016/17 (sy'n cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod fis Mehefin 2017); a

(b) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r trefniadau ar gyfer y sesiynau 'galw heibio' sydd wedi'u trefnu yn gynnar ym mis Medi ac yn nodi'r gallu i drafod unrhyw agwedd o'r Datganiad Cyfrifon gyda swyddogion neu Swyddfa Archwilio Cymru drwy gydol mis Gorffennaf, Awst a Medi, cyn i'r fersiwn derfynol wedi'i harchwilio ddod yn ôl ger bron y Pwyllgor i'w hargymell i'r Cyngor er mwyn i'r Cyngor ei chymeradwyo'n derfynol ar 27 Medi 2017.

**19. GWYBODAETH ARIANNOL ATODOL I DDATGANIAD CYFRIFON DRAFFT 2016/17**

Cyflwynodd Rheolwr Cyllid Corfforaethol wybodaeth ariannol atodol i gyd-fynd â Datganiad Cyfrifon drafft 2016/17, yn unol â’r Rhybudd o Gynnig a gymeradwywyd yn 2013.

Roedd y wybodaeth ynglŷn â swyddi a oedd yn benodiadau dros dro’n dangos y symiau a dalwyd i sefydliadau am drefniadau o’r fath ac nid oedd yn adlewyrchu cyflogau’r rhai dan sylw. Roedd y gost am ymgynghorwyr a swyddi nad oeddent yn rhai parhaol ar draws y Cyngor yn cynnwys costau blynyddol damcaniaethol pe bai’r unigolion wedi’u cyflogi am y flwyddyn gyfan, yn ogystal â’r costau gwirioneddol a ysgwyddid.

Mewn perthynas â’r ail o’r rheini, eglurodd y Prif Weithredwr fod y rhain yn wasanaethau arbenigol na ellid sicrhau'r gallu i'w cyflawni o fewn y sefydliad.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi’r adroddiad.

**20. ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI’R TRYSORLYS 2016/17 A DIWEDDARIAD AR REOLI’R TRYSORLYS YN CHWARTER 1 2017/18**

Cyflwynodd Rheolwr Cyllid - Cyfrifeg Dechnegol yr Adroddiad Blynyddol ar Bolisi, Strategaeth ac Arferion Rheoli Trysorlys y Cyngor 2016/17 i’w adolygu a’i argymell i’r Cabinet.

Yn rhan o ddiweddariad ar weithgarwch rheoli’r trysorlys yn chwarter cyntaf 2017/18, adroddwyd cynnydd bychan yn y portffolio buddsoddi. Roedd y sefyllfa mewn perthynas â benthyca’n adlewyrchu’r strategaeth i ddefnyddio benthyca tymor byr ar gyfraddau is. Roedd graff yn dangos symudiadau ar fuddsoddiadau a balansau benthyca tymor byr rhwng mis Ebrill 2016 a Mehefin 2017. I ategu'r drefn adrodd ar gyfer 2017/18, byddai sesiwn hyfforddi gan yr ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys, Arlingclose Ltd, yn cael ei threfnu ar gyfer yr holl aelodau’n gynnar ym mis Ionawr 2018.

Amlygodd y Cadeirydd yr angen am sicrwydd ar allu’r cyfrif refeniw i ymdopi â lefelau cynyddol y dyledion allanol ynghyd â chymhariaeth â chynghorau eraill. Cytunodd Rheolwr Cyllid i gynnwys hyn yn yr adroddiad diweddaru nesaf. Tynnodd sylw at yr adroddiad Cabinet diweddar ar Ddangosyddion Darbodus a oedd yn cynnwys canran y costau refeniw a oedd yn mynd at ddyled tymor hir.

Mewn ymateb i ymholiadau gan y Cadeirydd, rhoddwyd eglurhad ar y gwasanaethau arbenigol a ddarparwyd gan Arlingclose ac ar broffil terfynau dyledion lle'r oedd uchafbwyntiau’n adlewyrchu’r benthyciadau a gymerwyd i roi diwedd ar y system cymorthdaliadau tai negyddol.

Holodd y Cynghorwyr Paul Johnson a Chris Dolphin ynglŷn â benthyca tymor byr rhwng cynghorau. Eglurodd Rheolwr Cyllid fod gwahaniaeth rhwng rheoli llif

arian y Cyngor a'r sefyllfa gyllidebol yr oedd cynghorau yn ei hadrodd ac fe gyfeiriodd at y graff a oedd yn dangos symudiadau yn y balansau arian wedi'u rheoli gan fuddsoddiadau tymor byr a benthyca tymor byr.

Mewn perthynas â sylw blaenorol y Cynghorydd Dolphin, roedd y Cynghorydd Glyn Banks yn teimlo bod nifer ddigonol yn y Pwyllgor. Cynigiodd y gallai'r Pwyllgor, yn enwedig aelodau mwy newydd, elwa o hyfforddiant ychwanegol cyn hyfforddiant Rheoli'r Trysorlys. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Johnson. Awgrymodd hefyd y gallai Arlingclose ddarparu'r hyfforddiant drwy gyswllt fideo. Eglurodd Rheolwr Cyllid fod y contract gydag Arlingclose yn caniatáu un sesiwn hyfforddiant y flwyddyn, felly, efallai y byddai cost ychwanegol am hyfforddiant ychwanegol, neu fe ellid ystyried darparu hyfforddiant mewnol gan swyddogion.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at fanteision aelodaeth arbenigol, lai yn y Pwyllgor ond fe ddywedodd y gellid adolygu maint y Pwyllgor yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf os oedd yr aelodau'n dymuno.

Gwahoddodd Rheolwr Archwilio Mewnol Dros Dro awgrymiadau am themâu penodol ar gyfer yr hyfforddiant, y gellid eu cynnwys ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi Adroddiad Blynyddol drafft 2016/17 ar Reoli'r Trysorlys heb ddod ag unrhyw faterion at sylw'r Cabinet ar 26 Medi 2017.

(b) Nodi Diweddariad Chwarter 1 2017/18 ar Reoli'r Trysorlys; a

(c) Bod hyfforddiant ychwanegol yn cael ei drefnu ar gyfer y Pwyllgor cyn sesiwn hyfforddiant Rheoli'r Trysorlys.

## 21. PRESENOLDEB AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 4.10pm

……………………………………..
**Y Cadeirydd**